Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2012**

Amser:
**09:15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Sian Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582

## Agenda

**1. Sesiwn friffio anffurfiol cyn y prif gyfarfod 09:15 - 09:30**

**2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon 09:30**

**3. Craffu ar Waith y Prif Weinidog 09:30 - 11:30** (Tudalennau 1 - 6)

**4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**
Eitem 5

**5. Ystyried y dystiolaeth 11:30 - 11:45**

# PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG

# PAPUR TYSTIOLAETH – Y RHAGLEN DDEDDFWRIAETHOL

**Rhagair**

1. Mae'r Papur hwn yn cynnig tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog am Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth.

**Y Rhaglen Ddeddfwriaethol**

2. Ym mis Gorffennaf 2011 fe gyhoeddais raglen ddeddfwriaethol pum mlynedd y Llywodraeth oedd â'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus a chreu cyfleoedd i bawb. Bryd hynny fe gyhoeddais y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno dros 20 o Filiau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ac ym mis Gorffennaf eleni rhoddais ddiweddariad i'r Cynulliad ar ein cynlluniau ar gyfer wyth o'r Biliau hynny a fyddai'n cael eu cyflwyno yn ystod 2012/13.

3. Hyd yma rydym wedi cyflwyno Biliau ar Is-ddeddfau Llywodraeth Leol, Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, Archwilio Cyhoeddus a chynllun Sgorio Hylendid Bwyd gorfodol. Cyn diwedd y flwyddyn hon rydym yn bwriadu cyflwyno Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) a Bil Trawsblannu Dynol (Cymru).

*Datblygu'r Rhaglen Ddeddfwriaethol*

4. Mae'r Gweinidogion yn gwneud cynigion deddfwriaethol unigol yn seiliedig ar waith datblygu polisi'r Adrannau, gan ystyried anghenion Cymru i'r dyfodol, a blaenoriaethau'r Cabinet. Mae'r Cabinet yn cytuno ar y Rhaglen cyn iddi gael ei chyhoeddi yn fy natganiad deddfwriaethol blynyddol. Mae'r Rhaglen yn un uchelgeisiol, ac yn adlewyrchu fy amcanion ar gyfer deddfwriaeth yng Nghymru yng nghyd-destun y pwerau sydd ar gael ar hyn o bryd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Gallu ac arbenigedd*

5. Gwireddu'r rhaglen ddeddfwriaethol yw un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon, ac rwyf wedi trafod pwysigrwydd hynny i mi gyda gweision sifil, yn unigol ac ar y cyd.

6. Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, bod angen cryfhau gallu a chymhwyster ein gwasanaeth sifil er mwyn gwireddu'r rhaglen ddeddfwriaethol. Mae yna lai o swyddogion nag o'r blaen, ac nid yw llawer ohonynt wedi datblygu deddfwriaeth sylfaenol o'r blaen. I'r rheini sydd â phrofiad o ddeddfwriaeth, yn gyffredinol roedd hynny yng nghyd-destun gweithio gydag Adrannau Whitehall ar ddeddfwriaeth i'w phasio gan Senedd y DU ar gyfer Cymru neu mewn perthynas â hi.

7. Mae pwerau deddfu sylfaenol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhai newydd, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod sgiliau a galluoedd y gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn cael eu datblygu er mwyn paratoi deddfwriaeth ar gyfer y broses graffu yn y Cynulliad. Mae hyn wedi cynnwys gwella'r galluoedd drafftio yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

8. Rwy'n croesawu penodiad yr Ysgrifennydd Parhaol newydd a fydd, ar y cyd â'i dîm o uwch swyddogion, yn sicrhau bod sgiliau a galluoedd ein swyddogion yn cael eu datblygu yn ôl y gofyn a bod y trefniadau llywodraethu yn cael eu cryfhau. Dyluniwyd rhaglen hyfforddi newydd ar ddeddfwriaeth a chaiff honno ei chyflwyno yn fuan. Nod y rhaglen hon fydd cefnogi'r sgiliau a'r ymddygiadau sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu a chyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru. Mae Bwrdd Rhaglen Deddfwriaethol wedi'i sefydlu hefyd, dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol Perfformiad Strategol, Cyllid a Chynllunio; cyfrifoldeb y Bwrdd yw sicrhau bod y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei gweithredu.

*Effaith y ddeddfwriaeth*

9. Un elfen allweddol o'r broses o ddatblygu polisi yw asesu effaith deddfwriaeth ar y rheini y mae'n effeithio arnynt. Yn benodol, ac yn enwedig yn y cyfnod hwn o gyfyngu sylweddol ar gyllid, mae'n rhaid i ni allu dynodi a mesur goblygiadau ariannol ein holl gynigion - beth ydynt a ble byddant i'w teimlo. Mae gennym ni weithdrefn ar gyfer gwneud hynny – yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o fewn y Memorandwm Esboniadol – sy'n gymwys i bob darn o ddeddfwriaeth a gynhyrchir gennym. Wrth ddilyn hwn byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu ac yn cyhoeddi arfarniad opsiynau gyda chostau, ar y cyd â'r cyfiawnhad dros y Bil â'r sail resymegol drosto.

10. Gellir gweld effaith hyn yn ein holl Filiau. Rwy'n derbyn, fodd bynnag, ei bod yn bosibl nad ydym wedi cael yr agwedd hon o'n paratoadau deddfwriaeth yn hollol iawn bob amser, a bod rhai o'n rhanddeiliaid yn teimlo y gallem wneud mwy i ymgysylltu â hwy yn gynharach.

11. Mae paratoi polisi cydlynol yn greiddiol i unrhyw Fil, ac mae'r swyddogion yn gweithio'n hynod galed i sicrhau hynny. Mae gofyn gwneud gwaith dadansoddi manwl er mwyn ystyried effeithiau ymarferol y cynigion hynny, a gwerthuso'r holl oblygiadau. Yn y gorffennol rydym wedi rhoi blaenoriaeth i hyn, a hynny'n gwbl briodol, ond mae'n golygu nad ydym bob amser wedi mynd i'r afael â'r goblygiadau ariannol manwl tan yn gymharol hwyr yn y broses. Tynnwyd sylw at hyn yn adolygiad y Cwnsler Cyffredinol ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf.

12. Rydym yn ceisio sicrhau, felly, bod yr amserlen ar gyfer paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gynnwys yn y broses ddeddfwriaethol mewn modd mwy realistig. Ni fydd addasu'r amserlen yn unig, fodd bynnag, yn gwella ansawdd na chadernid y cynnyrch, sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal hygrededd Bil drafft yn ehangach. Mae angen i ni ymgysylltu â rhanddeiliad hefyd.

*Ymgysylltu*

13. Mewn egwyddor, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod yna ymgysylltu cynnar ac agored â'r rheini y bydd ein deddfwriaeth yn effeithio arnynt, megis awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd neu fusnesau. Mae'n anorfod, fodd bynnag, y bydd ein hagwedd at y polisi yn newid wrth i'r papurau Gwyrdd a Gwyn gael eu paratoi, yna'r Bil ei hun, ac eto wrth i'r Cynulliad graffu arno. O ganlyniad bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y goblygiadau ariannol ac, i ryw raddau, mantol yr arfarniad opsiynau, yn newid hefyd. Mae'n bwysig felly ein bod yn gallu gwneud yr addasiadau hyn mewn modd niwtral, yn hytrach na chael ein gweld yn newid ein hagwedd at y polisi yn sylfaenol.

14. Mae hyn yn codi cwestiynau am natur yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rwy'n ystyried bod yna ddwy elfen benodol i ymgysylltu - yn gyntaf yr elfen dechnegol a gweithredol y cynhyrchir ac yr addesir yr Asesiad ar ei sail; ac yn ail y drafodaeth briodol drwy ymgynghori a chraffu. Mae'n bwysig bod yn ddwy'n gallu datblygu ar wahân i'w gilydd (ond yn gyfochrog yn aml), a bydd hynny'n gofyn am ddisgyblaeth - a hyder - o du'r Llywodraeth a'r rhanddeiliaid fel ei gilydd. Hefyd, bydd yn rhaid i'r trafodaethau technegol a gweithredol hynny ddigwydd mewn amgylchedd o ymddiriedaeth a pharch er mwyn sicrhau y gellir mynegi barn yn agored ac yn rhydd, gan osod y sylfeini ar gyfer casgliadau gwirioneddol gadarn.

15. Mae'r Llywodraeth, hyd yma, wedi ymgynghori ar dri Bil drafft, saith Papur Gwyn, pedwar Papur Gwyrdd, a naw o ymgynghoriadau pellach sy'n gysylltiedig â chynigion deddfwriaethol. Hoffwn ddiolch yn swyddogol i'r unigolion a'r sefydliadau hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i ddod i'r digwyddiadau ymgynghori, i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru neu i roi tystiolaeth i'r Cynulliad wrth iddo graffu ar ein deddfwriaeth. Bu'r ymgysylltu hwn yn hynod fuddiol wrth ddeall effeithiau'r cynigion, y materion y mae gofyn eu hystyried er mwyn eu datblygu'n effeithiol, a pharatoi ar gyfer helpu i'w gweithredu.

16. Rwy'n hyderus y bydd ein rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol yn cael ei gwireddu yn llawn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**PAPUR I'R PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG**
**14 TACHWEDD 2012 – HYBU MENTER**

## Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw amlinellu tystiolaeth ysgrifenedig ar hybu menter ar gyfer y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. Mae twf a swyddi cynaliadwy wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a'r brif flaenoriaeth yw cyflawni yn y meysydd hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag ystod o fesurau i hybu menter drwy wella sefyllfa busnesau yng Nghymru a'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo.

2. Mae'n bwysig ystyried ein polisïau yn yr hirdymor, mynd i'r afael â materion strwythurol yn yr economi, a lleddfu'r pwysau y mae unigolion a busnesau'n eu hwynebu yn y tymor byr. Felly mae'r dystiolaeth hon yn canolbwyntio ar weithgarwch sydd wedi'i ddatblygu mewn dau faes cyffredinol: helpu busnesau drwy gyfnod anodd a buddsoddi ar gyfer twf a swyddi yn y dyfodol.

## Helpu busnesau drwy gyfnod anodd

3. Rydyn ni wedi sefydlu ystod o gronfeydd newydd i'w gwneud yn haws i fusnesau gael cyllid. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Twf Economaidd Cymru sydd werth £30m, Cronfa Fuddsoddi BBaChau Cymru sydd werth £40m, Cronfa Gwyddorau Bywyd sydd werth £100m a'r Gronfa Twf BBaChau Ynni a'r Amgylchedd sydd werth £330,000.

4. Hyd yn hyn mae 118 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo drwy Gronfa Twf Economaidd Cymru, a disgwylir iddynt greu tua 1800 o swyddi newydd a diogelu tua 1600 o swyddi. Disgwylir i Gronfa Fuddsoddi BBaChau Cymru helpu i greu 4000 o swyddi. Bydd y Gronfa Gwyddorau Bywyd yn gwneud Cymru'n lleoliad mwy deniadol fyth ar gyfer ymchwil a datblygu gwyddorau bywyd. Bydd peilot y Gronfa Twf BBaChau Ynni a'r Amgylchedd yn para am ddwy flynedd i ddechrau, a disgwylir y bydd yn helpu i greu dros drigain o swyddi newydd a diogelu tua deugain o swyddi yn y deuddeg mis cyntaf.

5. Rydyn ni hefyd wedi ymestyn y Gronfa Datblygu Digidol ac wedi dyrannu cyllid ychwanegol o £1.5m i gefnogi busnesau yn y sector diwydiannau creadigol.

6. Mae'r cronfeydd hyn yn ategu cronfa JEREMIE Cymru a gefnogir gan £150m gan Ewrop. Dyma'n prif ffynhonnell o gyllid masnachol ar gyfer BBaChau cymwys. Mewn ychydig dros ddwy flynedd, mae cronfa JEREMIE Cymru wedi buddsoddi dros £95m mewn mwy na 430 o fusnesau.

7. Yn ogystal, pwysleisiodd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficro-Fusnesau yr heriau sylweddol y mae'r sector micro-fusnesau'n eu hwynebu. Ymatebom ar unwaith drwy sefydlu'r Gronfa Fenthyciadau i Ficro-Fusnesau sydd werth £6m. Bydd yn gallu cefnogi o leiaf 300 o fusnesau a bydd yn weithredol ym mlwyddyn ariannol 2012/13. Hefyd rydyn ni'n parhau i gymryd camau i roi argymhellion eraill yr adroddiad ar waith.

8. Rydyn ni hefyd yn cymryd nifer o gamau i'w gwneud yn haws i ddechrau a thyfu busnes. Rydyn ni wedi sefydlu rhwydwaith Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Busnes i hyrwyddo entrepreneuriaeth a busnesau newydd, a rhoi cyngor ar y cymorth sydd ei angen i helpu busnesau newydd a bach a sut gall Llywodraeth Cymru ennyn diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru.

9. Lansiwyd ein prosiect Busnesau Newydd â Photensial Mawr sydd werth £2m i annog mentrau busnes twf uchel newydd, ac rydyn ni'n parhau i roi cyngor a chymorth busnes o safon uchel i fusnesau drwy'n Llinell Gymorth Gwybodaeth Fusnes, y Gwasanaeth Dechrau Busnes a'n rhwydwaith o ddeuddeg Canolfan Gwasanaeth Canolfannau Rhanbarthol.

10. Mae datblygu cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid yng Nghymru yn allweddol i'n gwaith ac mae'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES) yn rhan bwysig o hynny. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi digwydd mewn perthynas â'r 10 cam gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu YES.

11. Rydyn ni hefyd wedi cymryd camau sylweddol i newid ein hagwedd at fasnach a buddsoddi. Rydyn ni wedi sefydlu tîm newydd i arwain ar weithgarwch buddsoddi a masnach o'r tu allan o ansawdd uchel a gweithio'n agos gyda thimau sector a staff mewn swyddfeydd tramor, yn ogystal â UKTI. Mae cysylltiadau da gyda UKTI yn hanfodol wrth i ni geisio sicrhau bod busnesau Cymru yn allforio mwyfwy.

12. Rydyn ni wedi croesawu nifer o ymweliadau proffil uchel gan UKTI drwy gydol y flwyddyn ac wedi arwain nifer o deithiau masnach. Hefyd, canolbwynt cyfarfod diweddaraf y Cyngor Adnewyddu'r Economi oedd sut gallwn ni roi hwb pellach i allforio o Gymru a denu buddsoddiad tramor.

**Buddsoddi ar gyfer twf a swyddi yn y dyfodol**

13. Rydyn ni wedi datblygu ystod o bolisïau a chamau gweithredu i gefnogi twf a swyddi lleol yn yr hirdymor. Rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd gyda'r Ardaloedd Menter yng Nghymru. Mae Byrddau'r Ardaloedd Menter wedi paratoi'u hamcanion strategol yng nghynlluniau pob un o'r Ardaloedd Menter. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gan ddechrau gyda'r cynigion seilwaith oherwydd bod angen buddsoddiad cyfalaf mewn llawer o achosion i sicrhau'r amgylchiadau cywir i ddenu busnesau. Hefyd, mae cynlluniau marchnata bellach wedi'u cwblhau ar gyfer y saith Ardal Menter, gan gynnwys strategaethau cyflawni a thargedu unigol, cynigion marchnata manwl a chynlluniau gweithgarwch. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio i hybu'r ardaloedd mewn marchnadoedd lleol a rhyngwladol. Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod llawn ar 27 Tachwedd.

14. Nid yr Ardaloedd Menter yw'r unig ddull datblygu economaidd gofodol rydyn ni'n ymchwilio iddo. Mae addasu'r ffordd rydyn ni'n cefnogi swyddi a thwf yn ôl gwahanol amgylchiadau economaidd lleol yn hollbwysig i'n gwaith. Rhoddodd adroddiad Ardaloedd Twf Lleol Powys dipyn i ni gnoi cil arno o ran mynd i'r afael â'r heriau y

mae ardaloedd gwledig a threfi marchnad Powys yn eu hwynebu, ac yn wir ledled Cymru gyfan. Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ffurf datganiad llafar ddechrau mis Tachwedd.

15. Mae Dinas-ranbarthau yn ddull gweithredu arall. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall Dinas-ranbarthau arwain at farchnadoedd llafur mwy o faint a mwy effeithiol, a marchnadoedd mwy cystadleuol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, sy'n cael eu hwyluso drwy gynllunio a chysylltiadau gwell. Gall y manteision eraill gynnwys amrywiaeth o welliannau trafnidiaeth ac adnabod nifer fach o brosiect rhanbarthol bwysig er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl yn sgil cyllid yn y dyfodol.

16. Rydyn ni hefyd am wella'n hadnoddau gwyddoniaeth ac arloesi. Dyna pam ein bod ni wedi lansio 'Gwyddoniaeth i Gymru – Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru'. Roedd hyn yn cynnwys £50m ychwanegol ar gyfer ymchwil a datblygu gwyddoniaeth ym mhrifysgolion Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Rydyn ni hefyd wedi ehangu'r Rhaglen Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, gan alluogi busnesau Cymru i gymryd rhan mewn prosiectau trosglwyddo rhyngwladol.

17. Yn olaf, rydyn ni'n cymryd camau sylweddol i wella'n trefniadau cyfathrebu gwybodaeth ac rydyn ni wedi arwyddo cytundeb gyda BT ar gyfer prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru, yn amodol ar gael cymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd a chymeradwyaeth Prosiect Mawr. Nod y bartneriaeth gyda BT yw dod â manteision band eang ffeibr i'r mwyafrif o'r ardaloedd hynny sydd y tu allan i gynlluniau buddsoddi masnachol y sector preifat. Bydd y manylion cyflwyno'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn yr hydref wedi i ni gael y gymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol a'r gymeradwyaeth prosiect mawr.

**Crynodeb**

18. Mae'r dystiolaeth yn y papur hwn yn amlinellu rhai o'r camau sy'n helpu i gefnogi a buddsoddi mewn cwmnïau o ansawdd sy'n perfformio'n dda ym mhob rhan o'r economi a all greu swyddi, cyfoeth a Chymru gynaliadwy.

**Y Prif Weinidog**
**31 Hydref 2012**